

galeri

Teitl y Swydd: CYNORTHWY-YDD CEGIN
Adran: Café Bar Galeri
Yn atebol i: RHEOLWR Y GEGIN, RHEOLWR BAR A CAFFI GALERI a TÎM RHEOLI GALERI

Oriau: Isafswm 20 awr yr wythnos
(Llun i Sadwrn yn cynnwys rhai Gwyliau Banc)

Cyflog: £9672 y flwyddyn (£9.30 yr awr)

I ymgeisio, ebostiwch eich CV a Ffurflen Gais i sylw:
Iona Davies // iona.davies@galericaernarfon.com
Am sgwrs anffurfiol ynglyn â'r swydd gellir ffonio Iona ar 01286 685 218.

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno eich cais: 17:00, dydd Iau, 18.11.2021

Fel cyflogwr rydym yn hyrwyddo cyfle cyfartal. Croesweir ceisiadau o bob rhan o gymdeithas er mwyn adlewyrchu'r ddemograffeg leol ac ehangach yn fanwl gywir, a thrwy hynny ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth.

Pwrpas y Swydd:

Sicrhau bod gwasnaeth a darpariaeth arlwygo o safon ar gael yn Café Bar Galeri, a hynny yn gyson.

Mae addasiadau wedi'u cyflwyno yn ddiweddar i'r cynnig arlwygo sydd wedi gweld y fwydlen yn cael ei chwtogi er mwyn gwella effeithiolrwydd a chysondeb.

Mae'r swydd hon yn gofyn am berson:

- Gweithgar, cydwybodol sy'n gallu gweithio yn effeithiol/effeithlon drwy'r amser
- Sydd yn angerddol am gynnig bwyd da o safon a chynnyrch lleol
- All baratoi a chyflwyno bwydlen ddyddiol syml (sydd wedi ei chytuno gan y Tîm rheoli) gan ddefnyddio cynnyrch ffres/lleol
- All baratoi a chyflwyno bwydlen bwffe ar gyfer cyfarfodydd/cynadleddau
- Sydd yn gallu cyflwyno syniadau ar sut i wella a datblygu'n darpariaeth
- Sydd yn gallu rhedeg y gegin yn absenolden Rheolwr y Gegin a sicrhau cysondeb ar bob achlysur
- Sydd yn gallu rheoli stoc/gwastraff (lleihau unrhyw wastraff posib ar bob achlysur)
- Sydd yn gallu delio gyda cyflenwyr
- Sydd yn gallu gweithio mewn tîm

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Cyffredinol

Rhoi gwasanaeth proffesiynol, cwrtais a chyfeillgar i staff a cwsmeriaid Galeri

Dirprwyo os yn 'shifft leader' yn absenoldeb y Rheolwr Cegin

Paratoi a choginio prydau brecwast ac amser cinio yn unol â'r archebion i'r safon uchaf yn gyson ac yn amserol

Archebu a monitro lefelau stoc – arbed wâsd a colledion- sicrhau defnydd effeithiol o gynhwysion allweddol y Gegin

Gwneud yn siwr bod archebion cywir yn ein cyrraedd a'i fod o'n safonol- os ddim dychwelyd yr ordor i'r cyflenwyr ac awgrymu cyflenwyr arall

Cynnal a chadw gwaith papur y gegin pan fydd angen

Rheoli gwastraff ynni/ Rheoli defnydd ynni ar yr offer priodol

Gweithredu gwyliaidwriaeth cyffredinol a rheolaidd o'r gegin / ardaloedd cysylltiedig

Sicrhau bod popeth wedi ei baratoi ar gyfer gwasanaeth mewn da bryd

Sicrhau bod cynnwys yr oergelloedd wedi eu labelu yn gywir a bod ansawdd y bwyd o safon dderbyniol

Cynnal a chadw/ Glanhau'r offer a'r safle i'r safon uchaf ac adrodd unrhyw ddiffygion at y Rheolwr

Derbyn galwadau ffon a delio âc ymholiadau pan yn ofynnol

Hysbysu staff blaen ty o'r brydau arbennig all fod ar gael ar gychwyn neu yn ystod shifft a gneud yn siwr eu bod yn ymwybodol o'u cynhwysion dietegol

Hysbysu staff blaen ty am unrhyw gyfnodau disgwyl yn ystod gwasanaeth a cadw cyfathrebiad cyson efo nhw

Sicrhau bod paratoadau / tasgau wedi ei cyflawni cyn darhod shifft a bod yr adran yn cael ei chau i lawr yn ddiogel ac yn barod am fusnes ar y diwrnod canlynol

Sicrhau lefelau cyson o ddefnydd Cymorth Cyntaf

Cadw amser da, gofal glendid personol, edrychiad personol ac i wisgo gwisg unffurf drwy'r amser tra ar ddyletswydd- sicrhau bod gweddill y tim wedi eu gwisgo'n addas ar gyfer gwasanaeth

Unrhyw ddyletswyddau arall sy'n rhesymol i'r Rheolwyr ofyn ohonoch e.e. gweini bwyd at fwrdd y cwsmer pan fydd angen

Bod yn hyblyg ar gyfnodau byr rybudd e.e. absenoldebau, gwyliau ac oherwydd natur y busnes

Bod yn hyblyg i allu edrych ar ddatblygu bwydlen i'r dyfodol

Cadw at bolisiau a dull gweithredu'r Cwmni

